VERA SCHAUFELD

HOLOCAUST MEMORIAL DAY TRUST

Achubwyd Vera Schaufeld, gynt Vera Lowyova, gan ŵr a wrthododd sefyll o'r neilltu, Syr Nicholas Winton. Fe'i ganwyd ym Mhrag ym 1930. Ym mis Mai 1939, ar ôl i'r Natsïaid ymosod ar Tsiecoslofacia, cafodd Vera wybod bod yn rhaid iddi symud i Loegr ar ei phen ei hun, a hithau ond yn naw mlwydd oed.

'Dw i'n cofio eistedd yng Ngorsaf Liverpool Street, yn gwrando ar gyhoeddiadau mewn iaith estron, yn gweld plant o'm cwmpas yn cael eu casglu ac yn ofni y byddwn i'n cael fy ngadael yno ar fy mhen fy hun.'

Cafodd Vera blentyndod braf mewn tref o'r enw Klatovy yn ne-orllewin Bohemia, Tsiecoslofacia (y Weriniaeth Tsiec erbyn hyn). Roedd ei thad, Eugene, yn gyfreithiwr ac yn flaenllaw iawn yn y gymuned Iddewig. Mam Vera, Elsa, oedd y fenyw gyntaf yn ei thref i fod yn feddyg.

Tref fach ond blaengar oedd Klatovy. Ni welodd ac ni phrofodd Vera unrhyw wrth-semitiaeth yno. Mae'n cofio plentyndod hapus iawn. Roedd hi'n unig blentyn ac yn sicr o gariad ei rhieni a'i mam-gu, a oedd wedi symud o'r Almaen i fyw gyda'r teulu ym 1934. Roedd gan Vera lawer o ffrindiau yn yr ysgol, yn Iddewon a Christnogion. Er nad oedd rhyw lawer o blant Iddewig yn yr ysgol gynradd leol, prin y sylweddolai Vera ei bod hi'n perthyn i leiafrif ac ni ddeallodd oblygiadau hyn nes i'r Almaenwyr groesi ffin Tsiecoslofacia ym mis Mawrth 1938.

'O fewn dyddiau, cafodd fy nhad ei arestio am fod ei enw ar restr o Iddewon blaenllaw. Newidiodd yr awyrgylch i fod yn un o ofn dros nos.'

Yn fuan ar ôl i'r Almaenwyr gyrraedd, cafodd Vera ei blas cyntaf o wrth-semitiaeth gan athro. Mae'n cofio sylweddoli mai 'Iddew' oedd hi bellach yn llygaid yr athro – roedd hi wedi colli ei hunaniaeth bersonol. Cafodd ei thad ei arestio ac ni châi ei mam weithio fel meddyg mwyach, ond mae Vera'n cyfaddef nad oedd hi'n deall rhyw lawer am yr hyn oedd yn digwydd yn yr Almaen: 'Roedd fy rhieni am gadw pethau oddi wrtha i, debyg, ond doedd hynny ddim yn bosib mwyach.'

Un diwrnod, ar ôl ysgol, rhoddodd mam Vera syrpreis iddi drwy fynd â hi i barc bach. Dywedodd wrthi fod yn rhaid iddi fynd i Loegr ar ei phen ei hun. Ceisiodd ei chysuro drwy ddweud y byddai hi a thad Vera'n ceisio ymuno â hi yn Lloegr cyn gynted ag y gallen nhw.

Pan gyrhaeddodd Vera gorsaf Prag, torrodd ei chalon pan glywodd nad oedd rhieni'n cael mynd ar y platfform i ffarwelio â'u plant.

'Y tro ola welais i fy rhieni, roedden nhw'n aros y tu ôl i'r glwyd, yn chwifio'u hancesi, wrth i mi edrych arnyn nhw drwy ffenest y trên,' meddai.

Dyma'r tro olaf y byddai Vera'n gweld ei rhieni. Atgof Vera o gyrraedd Lloegr oedd eistedd yng Ngorsaf Liverpool Street, yng nghanol plant eraill yr oedd Syr Nicholas Winton wedi'u hachub hefyd, yn ofni na fyddai unrhyw un yn dod i'w nôl hi.

Cytunodd teulu Cristnogol i roi cartref i Vera, sef Leonard a Nancy Faires. Roedd ei merch, Betty, dair blynedd yn hŷn na Vera ac mae Vera'n cofio iddi fod yn garedig iawn – yn ddigon caredig i rannu ei harian poced! Cyn i'r rhyfel ddechrau ar 3 Medi 1939, byddai rhieni Vera'n anfon anrhegion ati ac roedden nhw hyd yn oed yn gallu siarad ar y ffôn. Ar ôl cyhoeddi'r rhyfel, fodd bynnag, chlywodd Vera yr un gair gan ei rhieni.

Ar 7 Mai 1945, daeth cyhoeddiad yng nghanol gwers Saesneg Vera fod y rhyfel yn Ewrop ar ben. Roedd Vera ar ben ei digon. Mae'n cofio meddwl: 'Mae hyn yn wych. Fe gaf i weld fy nheulu a'm ffrindiau'n fuan.'

Dim ond ar ôl trip i'r sinema lle gwelodd luniau o'r gwersylloedd crynhoi y daeth Vera i wybod nad oedd yr un aelod o'i theulu wedi goroesi.

Oherwydd yr amser a dreuliodd Vera yn Lloegr, doedd hi ddim wedi dod ar draws llawer o Iddewon eraill. Felly, penderfynodd deithio i Israel i dreulio blwyddyn yn gweithio ar *kibbutz* (anheddiad gydweithredol yn Israel). Dyna lle cwrddodd hi ag Avram, a oedd wedi goroesi Auschwitz a Buchenwald. Priododd Vera ac Avram ym 1952 – dyma nhw yn y llun, un o Moving Portraits yr Ymddiriedolaeth yn 2015: **hmd.org.uk/movingportraits**

Cyn symud i Israel, roedd Vera wedi hyfforddi i fod yn athrawes Saesneg, ac ar ôl dychwelyd i Loegr, gydag Avram, parhaodd i weithio fel athrawes. Ym 1972, penderfynodd Vera ddefnyddio'i phrofiad o ddysgu Saesneg pan oedd hi'n blentyn i ddysgu Saesneg i griw o blant o Uganda a Kenya a oedd newydd ddod i Brent, Llundain. Roedd y rhan fwyaf o'r plant o dras Asiaidd ac wedi cael eu gorfodi i adael Uganda gan Idi Amin, Arlywydd y wlad ar y pryd. Roedd pob aelod o'r gymuned Asiaidd a oedd yn byw yn Uganda ym 1972 wedi cael gorchymyn i adael o fewn 90 diwrnod. Daeth llawer ohonyn nhw i'r Deyrnas Unedig i geisio lloches. Mae'n amlwg bod ei phrofiad o fod yn ffoadur yn ystod y rhyfel wedi dylanwadu ar ddewisiadau bywyd Vera.

Doedd Vera ddim yn gwybod am Nicholas Winton a sut roedd e wedi helpu i achub ei bywyd nes 50 mlynedd ar ôl iddi deithio i Loegr. Ym 1988, cafodd Vera wahoddiad i gymryd rhan yn rhaglen deledu Esther Rantzen, *That's Life!*, lle cwrddodd â phlant eraill, oedolion bellach, a oedd wedi cael eu hachub gan Winton. Bu Vera a Nicholas, a Grete ei wraig, yn gyfeillion oes o hynny ymlaen.

Mae Vera ac Avram yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost i rannu eu profiadau ac i sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn cael anghofio am yr Holocost.

I wybod mwy:

- Darllenwch hanes achubwr Vera, Syr Nicholas Winton **hmd.org.uk/nicholas**
- Darllenwch fwy am yr Holocost: **hmd.org.uk/holocaust**
- Darllenwch am y *Kindertransport* – yr ymdrech i achub 10,000 o blant o'r Almaen ac Awstria a dod â nhw i Brydain ym 1938-39, ysbrydoliaeth Nicholas Winton i achub 669 o blant o Tsiecoslofacia: **hmd.org.uk/kindertransport**